

CYNGOR BRO LLANLLWNI 11 IONAWR 2016

Cyng Dewi Davies (Cadeirydd)
Eirlys Owen (Clerc)

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies.

Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Nodwyd bod angen holi Lyn Jones i lanhau'r matiau yn ystod y gwanwyn.

Yr oedd Hefin Harries wedi torri clawdd y cae chwarae a phenderfynwyd yn unfrydol gan y Cynghorwyr anfon sic o £50.00 ato yn arwydd o ddiolch am ei waith.

ADNODDAU CHWARAE

Penderfynwyd cysylltu â Ian Edwards i drefnu bod archwiliad o'r adnoddau yn cael ei wneud tua mis Mawrth 2016. Os na fyddai'r Clerc yn cael ymateb boddhaol, yna byddai'n cysylltu â Playdale.

GWEFAN LLANLLWNI

Cytunwyd y byddai'r wefan yn cael ei diweddarau.

Y CYNGOR SIR

Nodwyd eto bod angen llenwi'r tyllau yn yr hewl: Glennydd - Cwmderi. Fferm Talardd – Aberceiliog, Ffynonddrain – Gwarcwm, Gwaelod Rhiw Glynriced.

TORRI CLAWDD

Pendderi – Prysg.

Roedd angen adolygu cyflwr yr heolydd yn gyffredinol yn y pentref yn enwedig y canlynol: Felin Gelli, Gelli Deg, Pentop – Gwarallt, Tan y Bryn â Bryn-hedd.

Yr oedd y Clerc wedi derbyn ymateb i ddweud bod y Cyngor Sir yn siarad â Stuart Quick ac mi fyddai mewn cysylltiad yn y dyfodol agos.

Roedd y Clerc wedi derbyn ymateb gan Nicola Smith; byddai'n fodlon cael cyfarfod safle ar ddydd Gwener 22 Ionawr 2016 am 1.30yp.

Oherwydd rheolau Iechyd a Diogelwch dim ond dau Gynghorwr fyddai'n mynychu'r cyfarfod hwnnw.

Nodwyd gan y Cynghorwyr y byddai angen tywys Nicola Smith o amgylch y pentref i ddangos y lleoliadau eraill roedd angen eu hatgyweirio.

PLANU BLODAU

Roedd Dewi Davies wedi derbyn anfoneb am osod blodau yn y potiau yn y pentref yn ystod Haf – Gaeaf 2014 a Haf 2015 ac wedi talu y swm priodol.

GOLEUADAU

Doedd y goleuadau ddim yn gweithio gyferbyn â'r ysgol ger garej Tegfan (Greenacres).

DIOGELU GWAITH PAPUR Y CYNGOR BRO

Roedd y Clerc wedi archebu bocsys priodol.

GOHEBIAETH:

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr a phennwyd y praesept.

MATERION ERAILL

Penderfynwyd cefnogi'r Gwasanaeth Cymorth a Gwybodaeth am Ganser.

Aberceiliog – Henfaes: Angen gosod arwydd llifogydd.

Roedd y Cyngor wedi derbyn gwybodaeth bod ci yn tresbasu ar y cae chwarae yn ddyddiol. Penderfynwyd anfon llythyr at y perchen yn nodi bod cŵn wedi'u gwahardd o'r cae chwarae.

DIWRNOD O HWYL

Cadarnhaodd y Cyngor y byddai'n noddi gwobrau 2016.

GOLEUADAU GER TŶ'R HERS

Roedd y Cynghorwyr wedi derbyn ymholiad a fyddai yn bosib i gael golau stryd ger y safle yma gan fod gweithgareddau yn cael eu cynnal yn yr ysgol gyda'r nos a'i bod yn dywyll i athrawon, staff a rhieni gerdded i'w ceir yn ystod misoedd y gaeaf.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 14 Mawrth 2016 am 8yh.

